# FIOLED

## 1 HAU DY HADAU

O fis Mawrth ymlaen, gelli di hau hadau fioled mewn hambyrddau hadau yn y tŷ gwydr. Gwasgara nhw ar y compost a rhoi haen denau o gompost drostyn nhw.

Rho'r hambyrddau hadau mewn hambwrdd dŵr a gadael i'r compost amsugno'r dŵr o'r gwaelod.


## 2 PLANNU ALLAN

Pan fydd o leiaf ddwy ddeilen go iawn gan y fioledau, a phan fyddan nhw'n ddigon mawr i afael ynddyn nhw, gelli di eu trawsblannu i'r gwely llysiau.

Planna nhw gan adael tua 10cm rhwng pob un. Planna nhw mewn rhesi dwbl fel bod ymyl flaen dwt i dy wely. Neu gelli di eu plannu nhw yn y bylchau o gwmpas gweddill dy blanhigion.

## 3 CYNAEAFU

Gelli di fwyta'r dail a'r blodau, ac maen nhw'n hyfryd mewn salad. Pinsia'r dail a'r blodau yn ofalus i'w tynnu oddi ar y planhigyn. Gwna'n siŵr bod 3-4 deilen ar ôl ar y planhigyn fel bod digon iddyn nhw gario ymlaen i dyfu.




### COFIA

Mae hadau fioled yn cymryd peth amser i egino, felly paid â phoeni os fyddan nhw ddim yn dechrau tyfu am hyd at 20 diwrnod.

Dal ati i dynnu'r blodau a byddan nhw'n dal ati i roi blodau i ti am fisoedd.



Barod i'w hel



Barod i'w hel

CARDIFF CAERDYDD · All Saints Educational Trust · TREES FOR CITIES